



<b>1</b>	<b>Ffrâm gyfeirio</b>		<b>2</b>	<b>Unedau a chynnwys dangosol</b>		<b>3</b>	<b>Meini prawf graddio</b>	
1.1	Diffiniad a nodweddion	3	Uned 1	Cyflwyniad i ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol mewn celf a dylunio	8	Uned 8	Datblygu a chynhyrchu prosiect personol mewn celf a dylunio - Lefel 2	26
1.2	Nodau	3	Uned 2	Cyflwyniad i ymchwil i gyd-destun mewn celf a dylunio	10	Uned 9	Datblygu a chynhyrchu prosiect personol mewn celf a dylunio - Lefel 3	28
1.3	Strwythur y cymhwyster	4	Uned 3	Cyflwyniad i sgiliau lluniadu	12			
1.4	Sylwadau ar strwythur y cymhwyster	5	Uned 4	Cyflwyniad i sgiliau cyfathrebu mewn celf a dylunio	14			
1.5	Derbyniadau	6	Uned 5	Datrys problemau 2D creadigol	16			
1.6	Ymsefydlu	6	Uned 6	Datrys problemau 3D creadigol	18			
1.7	Cynllunio'r rhaglen	6	Uned 7	Datrys problemau creadigol seiliedig ar amser	20			
1.8	Datblygiad personol a phroffesiynol	7	Uned 8	Datblygu a chynhyrchu prosiect personol mewn celf a dylunio - Lefel 2	22			
1.9	Asesu	7	Uned 9	Datblygu a chynhyrchu prosiect personol mewn celf a dylunio - Lefel 3	24			
1.10	Achredu a chyllido	7						
							<b>4</b>	<b>30</b>
							<b>Enghreifftio graddau</b>	

### 1.1 Diffiniad a nodweddion

Mae Dyfarniad Lefel 2 mewn Celf a Dylunio UAL Awarding Body wedi'i ddatblygu i roi cyfle i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn celf a dylunio i archwilio'r deunyddiau, y dulliau a'r prosesau sy'n cefnogi gweithgareddau celf a dylunio, ac i ddechrau datblygu rhai sgiliau technegol cysylltiedig. Mae strwythur y cymhwyster yn rhoi cyflwyniad cydgysylltiedig i'r cyd-destun ehangach y mae gweithgareddau celf a dylunio wedi'u lleoli o'u mewn.

Bwriedir y bydd y profiad cychwynnol hwn o weithgareddau ym maes celf a dylunio yn galluogi myfyrwyr i fesur, yn gynnar, hyd a lled eu hymrwymiad i'r pwnc a'u diddordeb ynddo. Mae hefyd yn cynnig cyfle iddynt archwilio a datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r dealltwriaeth sydd eu hangen ar gyfer dilyniant mewn addysg ym maes celf a dylunio. Gellir defnyddio'r Dyfarniad mewn Celf a Dylunio fel rhagarweiniad i'r Diploma Lefel 2.

Mae'r Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio wedi'i ddylunio i adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r dealltwriaeth a ddysgwyd yn ystod y Dyfarniad ac i gynnig cyfle i archwilio a datblygu creadigrwydd ac i'w roi ar brawf. Bydd strwythur y cymhwyster yn rhoi sylfaen gadarn o sgiliau a gwybodaeth, yn hybu hunanhyder ac yn rhoi dealltwriaeth o'r gofynion a'r cyfleoedd o ran gyrfa ym maes celf a dylunio.

Nid oes angen cwblhau'r cymwysterau cyfunol o fewn amser penodol, ond fel arfer fe'u cwblheir dros gyfnod o flwyddyn, ac maent yn debygol o ddenu'r rhai sy'n dymuno cwblhau cyfnod o astudiaethau ymarferol yn hytrach na dilyn llwybr astudio mwy academaidd.

Mae strwythur y Diploma, ble mae cysylltiad rhwng yr unedau er mwyn sicrhau cydlynid, yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau ymarferol a dealltwriaeth ddamcaniaethol trwy broses o ailadrodd ac atgyfnerthu. Mae hefyd yn eu galluogi i ddatblygu arferion gwaith effeithiol a fydd yn cefnogi creadigrwydd ar draws amrywiaeth o weithgareddau ysgogol a heriol ym maes celf a dylunio.

Er mwyn hwyluso'r broses o bontio rhwng lefelau astudio, mae'r cymhwyster yn cynnwys unedau ar Lefel 2 a Lefel 3. Mae'r uned olaf, y gellir ei chwblhau naill ai ar Lefel 2 neu ar Lefel 3, yn gofyn i fyfyrwyr ddangos y gallant ddefnyddio'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i gwblhau aseiniad yn llwyddiannus sy'n gofyn cymryd yr awenau i raddau helaethach wrth baratoi ar gyfer astudio ar lefel uwch.

### 1.2 Nodau

Bydd y Dyfarniad a'r Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i gelf a dylunio, gan eu galluogi i ailgysylltu ag addysg a chaffael y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth yn y diwydiannau creadigol.

Bydd y cymwysterau'n rhoi i fyfyrwyr:

1. Brofiad cychwynnol o rai o'r deunyddiau, y dulliau, y prosesau a'r sgiliau technegol sy'n cefnogi gweithgareddau celf a dylunio
2. Dealltwriaeth gychwynnol o'r cyd-destun y mae gweithgareddau celf a dylunio wedi'u lleoli o'i fewn
3. Cyfle i roi diddordeb myfyrwyr mewn gweithgareddau celf a dylunio ar brawf
4. Cyfle i ddatblygu ymwybyddiaeth o werth ymchwil i gefnogi gweithgareddau celf a dylunio
5. Cyflwyniad i'r sgiliau lluniadu sydd eu hangen i gefnogi gweithgareddau creadigol mewn celf a dylunio
6. Cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o rôl sgiliau cyfathrebu wrth ddatblygu syniadau
7. Cyfle i ddefnyddio'r wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y cymhwyster i bennu prosiect celf a dylunio personol, i ymchwilio ar ei gyfer ac i'w gynhyrchu.

## 1.3 Strwythur y cymhwyster

### Dyfarniad mewn Celf a Dylunio

Rhaid i fyfyrwyr gyflawni dwy uned orfodol.  
Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA): 60  
Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC): 90  
Cyfanswm Credydau: 9

**Uned 1** Cyflwyniad i ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol mewn celf a dylunio **Lefel 2**  
40 ODA, CAU 60  
Credydau: 6

**Uned 2** Cyflwyniad i ymchwil i gyd-destun mewn celf a dylunio **Lefel 2**  
20 ODA, CAU 30  
Credydau: 3

Mae'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Celf a Dylunio yn cwmpasu dwy uned orfodol.

**CAC:** Cyfanswm Amser y Cymhwyster  
**CAU:** Cyfanswm Amser yr Uned  
**ODA:** Oriau Dysgu dan Arweiniad

### Diploma mewn Celf a Dylunio

Rhaid i fyfyrwyr gyflawni Unedau 1–2 y Dyfarniad yn ogystal ag Unedau 3–7 ac Uned 8 neu 9.  
Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA): 420  
Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC): 750  
Cyfanswm Credydau: 75

**Uned 3** Cyflwyniad i sgiliau lluniadu **Lefel 2**  
50 ODA, CAU 70  
Credydau: 7

**Uned 4** Cyflwyniad i sgiliau cyfathrebu mewn celf a dylunio **Lefel 2**  
50 ODA, CAU 70  
Credydau: 7

**Uned 5** Datrys problemau 2D creadigol **Lefel 2**  
50 ODA, CAU 80  
Credydau: 8

**Uned 6** Datrys problemau 3D creadigol **Lefel 2**  
50 ODA, CAU 80  
Credydau: 8

**Uned 7** Datrys problemau creadigol seiliedig ar amser **Lefel 2**  
50 ODA, CAU 80  
Credydau: 8

Rhaid i fyfyrwyr gyflawni naill ai'r uned **Lefel 2 neu'r uned Lefel 3** isod:

**Uned 8** Datblygu a chynhyrchu prosiect personol mewn celf a dylunio **Lefel 2**  
150 ODA, CAU 370  
Credydau: 37

**Uned 9** Datblygu a chynhyrchu prosiect personol mewn celf a dylunio **Lefel 3**  
150 ODA, CAU 370  
Credydau: 37

Mae'r Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio yn cwmpasu saith uned orfodol a dewis o un o ddwy uned ddewisol.

#### 1.4 Sylwadau ar strwythur y cymhwyster

##### Dyfarniad Lefel 2 mewn Celf a Dylunio

Bwriedir i Ddyfarniad Lefel 2 mewn Celf a Dylunio UAL Awarding Body fod yn rhagarweiniad i'r Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio. Mae'r cymhwyster yn rhoi cyfle i fyfyrwyr a chanolfannau adolygu eu diddordeb mewn celf a dylunio a'u hymrwymiad i astudio'r pwnc.

Caiff y cymhwyster ei gyflwyno drwy gyfrwng dwy uned gysylltiedig, sy'n rhoi profiad symbylol a chefnogol.

Dylid cysylltu **Unedau 1–2** i ffurfio patrwm cydlynol o addysgu a dysgu. Byddant yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i archwilio, ymestyn a chynnal eu datblygiad creadigol. Mae Unedau 1–2 hefyd yn helpu i bennu'r safon y bydd pob dysgu arall yn datblygu ohoni.

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol ym maes celf a dylunio y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni. Dylai'r aseiniadau adlewyrchu pa mor bwysig yw cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig fel rhan annatod o bob gweithgaredd celf a dylunio.

Bydd **Uned 1** yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i amrywiaeth o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol sydd eu hangen i gefnogi gweithgareddau creadigol ym maes celf a dylunio.

Bydd **Uned 2** yn rhoi ymwybyddiaeth i fyfyrwyr o'r cyd-destun ehangach y mae celf a dylunio wedi'u lleoli o'i fewn.

##### Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio

Bydd myfyrwyr sy'n dilyn y Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio eisoes wedi cwblhau'r ddwy uned orfodol o'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Celf a Dylunio. Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn cwblhau chwe uned allan o saith uned bosibl sy'n cwmpasu'r Diploma. Bydd yr unedau'n amrywio o ran hyd (ac yn achos rhai myfyrwyr, o ran lefel) er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi profiad symbylol a chefnogol.

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol ym maes celf a dylunio y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni. Dylai'r aseiniadau adlewyrchu pa mor bwysig yw cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig fel rhan annatod o bob gweithgaredd celf a dylunio.

Bydd **Uned 3** yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth mewn lluniadu sydd eu hangen i archwilio, ehangu a chynnal eu datblygiad creadigol ac a fydd yn pennu safon y bydd pob dysgu arall yn deillio ohoni.

Bydd **Uned 4** yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i'r sgiliau cyfathrebu sy'n sail i holl weithgareddau celf a dylunio ac sy'n eu cefnogi, a bydd yn galluogi myfyrwyr i gofnodi profiadau a chyfathrebu syniadau. Gellir cyflwyno'r uned hon ochr yn ochr ag Unedau 3, 5, 6 a 7 (ac er mwyn eu cefnogi).

Gellir cyflwyno **Unedau 5–7** yn unigol, neu gellir eu cysylltu, ond dylent ffurfio patrwm cydlynol o addysgu a dysgu a fydd yn gofyn i fyfyrwyr gymhwyso'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent newydd eu dysgu mewn cyfres o gyd-destunau mwy cymhleth a mwy heriol. Dylid annog myfyrwyr hefyd i gydnabod a deall nodweddion unigryw gweithgareddau celf a dylunio penodol, a'r gwerthoedd cyffredin sy'n eu huno.

Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn dechrau deall bod y rhan fwyaf o weithgareddau celf a dylunio yn gofyn rhyw fath o waith grŵp neu waith tîm, ac felly dylid cyflwyno un uned o leiaf o Unedau 5–7 drwy gyfrwng aseiniad sy'n gofyn gweithio mewn tîm.

Mae Uned 5 yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd yn Unedau 3 a 4 i weithio tuag at ddatrysiad creadigol i broblem 2D wedi'i diffinio.

Mae Uned 6 yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd yn Unedau 3 a 4 i weithio tuag at ddatrysiad creadigol i broblem 3D wedi'i diffinio.

Bydd Uned 7 yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd yn Unedau 3 a 4 i weithio tuag at ddatrysiad creadigol i broblem seiliedig ar amser.

Bydd **Uned 8 (ar Lefel 2)** yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddangos eu bod yn gallu ymchwilio, trefnu, cynllunio, cynhyrchu a chyflwyno prosiect a bennwyd ganddynt eu hunain.

Bydd **Uned 9 (ar Lefel 3)**, fel yr uned gyfatebol ar Lefel 2, yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddangos eu bod yn gallu ymchwilio, trefnu, cynllunio, cynhyrchu a chyflwyno prosiect a bennwyd ganddynt eu hunain, ond ar lefel fwy heriol.

Mae'r unedau'n caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu bod yn gallu cymryd yr awenau yn rhannol wrth bennu prosiect personol ac wrth gyflawni ymchwil gysylltiedig a datblygu syniadau.

## 1.5 Derbyniadau

Mae UAL Awarding Body yn disgwyl i Ganolfannau recriwtio gyda gonestrwydd ac ar sail gallu disgwylid y myfyrwyr i gyflawni gofynion yr uned(au) unigol neu'r cymhwyster cyfan yn llwyddiannus.

Mae UAL Awarding Body yn argymhell y dylai fod gan fyfyrwyr sy'n dymuno gwneud cais am y Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio 4 TGAU ar radd D neu uwch. Cyngorir myfyrwyr i drafod cyfleoedd gyda'u tiwtor derbyniadau i ail-sefyll Saesneg a Mathemateg er mwyn ennill Gradd C neu uwch.

Bydd gofyn i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr gyflwyno enghreifftiau o'u gwaith arlunio a dylunio er mwyn cadarnhau eu diddordeb yn y pwnc.

## 1.6 Ymsefydlu

Dylai canolfannau roi sesiwn ymsefydlu i'r myfyrwyr er mwyn sicrhau:

- Y darperir llawlyfr cwrs ac unrhyw ddeunyddiau atodol eraill i hwyluso dysgu effeithiol
- Bod trefniadau amserlennu yn glir
- Y darperir systemau tiwtora academaidd
- Y canfyddir anghenion cefnogi dysgu ac y darperir ar eu cyfer, fel y bo'n briodol
- Y caiff strwythurau'r cyrsiau a'r gofynion asesu eu hesbonio mewn perthynas ag asesu mewnlol a safoni allanol
- Y caiff rheoliadau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch eu hesbonio.

## 1.7 Cynllunio'r rhaglen

Mae UAL Awarding Body yn cefnogi ffyrdd arloesol o ddylunio a chyflwyno rhaglenni o fewn cyd-destun ehangach amcanion y cymhwyster, y canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu. Gellir cyflwyno'r rhaglen mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Ysgrifennwyd y cymhwyster i gefnogi amrywiaeth o opsiynau ar gyfer cyflwyno'r rhaglen. Mae'r naw uned yn canolbwyntio ar brosesau ac egwyddorion sylfaenol ac yn fwrriadol osgoi manylu ar gyd-destunau penodol ar gyfer cyflwyno'r cwrs. Er mai bwriad y cymhwyster yw rhoi mynediad i fyfyrwyr i amrywiaeth o ddisgyblaethau, y mae'n gwbl bosibl a dymunol y gellid defnyddio modelau cyflwyno mwy arbenigol i gefnogi datblygiad myfyrwyr sydd, wrth gychwyn ar y cwrs, â dealltwriaeth gliriach o'r disgyblaethau yr hoffent weithio o'u mewn. Felly, gellid cyflwyno'r rhaglen yng nghyd-destun maes arbenigol penodol, fel ffasiwn neu ddylunio graffig.

Fodd bynnag, dylid cyflwyno'r rhaglen mewn ffordd gydlynol ac integredig, gan ganolbwyntio fwyfwy dros amser ar y berthynas rhwng datblygiad gwaith myfyrwyr a'r dewisiadau a wnânt. Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, rhaid i fyfyrwyr allu dangos cyflawniad o ran dysgu, arsylwi a phrofiad ymarferol ym maes celf a dylunio, ochr yn ochr â gallu cynyddol i fyfyrwyr allu profiadau wrth baratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad proffesiynol.

Dylai myfyrwyr ddatblygu sylfaen o sgiliau ymarferol drwy'r amser ynghyd â dealltwriaeth o'r berthynas rhwng datblygiad eu syniadau a'u gwaith a'r dewisiadau a wnânt o ran dilyniant yn y dyfodol. Dylai canolfannau sy'n bwriadu cyflwyno'r cymhwyster ymgyfarwyddo â'r naw uned a'r deunyddiau atodol cysylltiedig, gan gynnwys:

- Nodau'r unedau
- Canlyniadau dysgu'r unedau
- Meini prawf asesu'r unedau
- Cynnwys dangosol yr unedau
- Strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu'r unedau
- Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad
- Adnoddau angenrheidiol
- Meini prawf graddio.

Ni fydd disgwyl i bob canolfan sy'n cyflwyno'r Dyfarniad a'r Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio gyflwyno'n union yr un rhaglen, ond bydd gofyn iddynt ymgorffori'r un canlyniadau dysgu a meini prawf asesu a sicrhau trefn gydlynol (patrymau addysgu, dysgu ac asesu sy'n ddi-dor, yn rhyngweithiol ac yn integredig), yn hytrach nag ymagwedd fratiog ar draws disgyblaethau amrywiol.

Disgwylir y bydd canolfannau'n darparu adnoddau ar gyfer dysgu ym meysydd celf, dylunio graffig, 3D, ffasiwn, tecstilau a'r cyfryngau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ond mae'n arweiniad i'r meysydd gweithgaredd cyffredinol a fydd yn cyflawni nodau'r cymwysterau.

### 1.8 Datblygiad personol a phroffesiynol

Bydd y Dyfarniad a'r Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu a defnyddio sgiliau trosglwyddadwy eang drwy annog ethos o ddatblygiad personol a phroffesiynol. Yn benodol, bydd y rhaglen yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos:

- Blaengarwch
- Ymholi annibynnol
- Meddwl yn greadigol
- Dysgu myfyriol
- Gweithio mewn tîm
- Hunan reolaeth
- Cyfranogiad effeithiol
- Datrys problemau
- Cyfathrebu.

### 1.9 Asesu

Caiff Uned 1 a 2 y **Dyfarniad Lefel 2 mewn Celf a Dylunio** eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr, ac maent yn ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd allanol UAL Awarding Body.

Caiff Unedau 3–7 y **Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio** eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n fewnol yn erbyn meini prawf asesu a graddio'r unedau hynny. Caiff Unedau 8 a 9 y **Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio** eu hasesu'n fewnol a'u safoni'n fewnol ac yn allanol yn erbyn meini prawf asesu'r unedau hynny.

I ennill gradd Llwyddo yn unrhyw uned, rhaid bodloni'r holl feini prawf asesu. Yn ogystal, gellir rhoi gradd Llwyddo, Teilyngdod neu Anrhydedd ar gyfer Unedau 8 a 9.

I ennill gradd Teilyngdod neu Anrhydedd, rhaid bodloni'r holl feini prawf graddio yn y categorïau hynny yn llawn.

Os bydd myfyriwr yn methu â bodloni'r meini prawf asesu, yna caiff ei gyfeirio/chyfeirio. Caiff myfyriwr un cyfle i glirio cyfeiriad, a'r radd uchaf a gaiff yw Llwyddo.

### 1.10 Achredu a chyllido

Mae'r Dyfarniad a'r Diploma Lefel 2 mewn Celf a Dylunio wedi'u hachredu o dan y Fframwaith Cymwysterau wedi'u Rheoleiddio (RQF) :

- Y rhif achredu cymhwyster, neu QAN ('qualification accreditation number'), ar gyfer y Dyfarniad mewn Celf a Dylunio yw [600/3738/6](#).
- Y rhif achredu cymhwyster, neu QAN, ar gyfer y Diploma mewn Celf a Dylunio yw [600/3807/X](#).

Gall canolfannau ganfod manylion llawn am drefniadau cyllido'r Asiantaeth Cyllido Sgiliau ('Skills Funding Agency': SFA) a'r Asiantaeth Cyllido Addysg ('Education Funding Agency': EFA) ar gyfer y cymwysterau ar wefan y peiriant chwilio nodau dysgu - *The Hub*.

# Uned 1

Cyflwyniad i  
ddeunyddiau,  
prosesau a sgiliau  
technegol mewn celf  
a dylunio

Lefel: 2

ODA: 40

CAU: 60

Credydau: 6

**Nod yr uned:** Rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i'r deunyddiau, y prosesau a'r sgiliau technegol a ddefnyddir ym maes celf a dylunio, eu nodweddion penodol, a'r sgiliau cysylltiedig sydd eu hangen er mwyn cofnodi profiadau a mynegi syniadau.

## Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall deunyddiau, prosesau a sgiliau technegol mewn celf a dylunio.

## Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Dewis a chymharu, drwy eu defnyddio mewn ffordd arbrofol, amrywiaeth o ddeunyddiau a phrosesau i gefnogi gweithgareddau creadigol.
- 1.2 Dangos defnydd o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol i effeithio ar edrychiad ac ystyr delweddau a gwrthrychau mewn celf a dylunio.
- 1.3 Asesu'r dewis o ddeunyddiau a phrosesau a'r defnydd o sgiliau technegol i effeithio ar edrychiad ac ystyr delweddau a gwrthrychau mewn celf a dylunio.



## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon, y dylid ei chysylltu'n ffurfiol ag Uned 2 drwy aseiniad(au) ar y cyd, wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth a fydd yn galluogi'r myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddeunyddiau, prosesau a sgiliau technegol a ddefnyddir ym maes celf a dylunio.

Dylid annog myfyrwyr i fod yn fentrus a chadw meddwl agored wrth archwilio a gwerthuso amrywiaeth o ddeunyddiau a prosesau yn yr uned hon, uned sydd wedi'i dylunio i roi profiad ymarferol cryf sydd wedi'i gefnogi gan ymchwil i gyd-destun o Uned 2.

Dylid annog myfyrwyr hefyd i ddatblygu lefel briodol o sgil bersonol yn eu gwaith sy'n eu galluogi i fynegi eu profiadau a'u syniadau yn hyderus. Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect stiwdio neu brosiect gweithdy.

Mae'r gweithgareddau ymarferol yn yr uned hon yn gofyn i fyfyrwyr nodi a deall amrywiaeth o ddeunyddiau a prosesau, a dangos y gallant eu defnyddio mewn ffordd fedrus briodol i sicrhau y cyfathrebir edrychiad ac ystyr yn glir at ddibenion penodedig.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio amrywiaeth o ddeunyddiau a prosesau a ddefnyddir mewn celf a dylunio i ddatblygu sgiliau myfyrwyr a chyflawni nodau penodedig
- Defnyddio 'micro-brosiect' sy'n ymgorffori'r dysgu ar gyfer Unedau 1 a 2 er mwyn rhoi nod penodol ar gyfer gweithgaredd gyda ffocws cryfach.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned. I'r myfyrwyr hynny sy'n ceisio am y Dyfarniad yn unig, caiff yr unedau hyn eu safoni'n allanol hefyd. Dylid cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon gyda'r rhai ar gyfer Uned 2.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: lluniadau archwiliol, lluniadau dadansoddol, llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, recordiadau digidol, gwrthrychau ac arteffactau wedi'u gwneuthurio a rhai wrth raddfa. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 2

## Cyflwyniad i ymchwil i gyd-destun mewn celf a dylunio

Lefel: 2

ODA: 20

CAU: 30

Credydau: 3

**Nod yr uned:** Datblygu ymwybyddiaeth myfyrwyr o werth ymchwil i gyd-destun wrth gefnogi gweithgareddau celf a dylunio.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall ymchwil i gyd-destun ym maes celf a dylunio.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Ymchwilio i wybodaeth gyd-destunol, a chofnodi'r ymchwil honno, ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau celf a dylunio.
- 1.2 Dangos y defnydd o wybodaeth gyd-destunol i lywio a datblygu syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol.
- 1.3 Asesu pa mor effeithiol yw ymwybyddiaeth o gyd-destun wrth gefnogi gweithgareddau creadigol.

## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon, y dylid ei chysylltu'n ffurfiol ag Uned 1 drwy aseiniad(au) ar y cyd, wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth a fydd yn galluogi'r myfyriwr i ddatblygu dealltwriaeth o'r cyd-destun ehangach y mae pob gweithgaredd celf a dylunio wedi'i leoli o'i fewn.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect(au) stiwdio, llyfrgell, oriel neu amgueddfa, sydd wedi'i ddylunio i hybu hyder myfywrwyr ac i'w hannog i ddod yn fwy cyfarwydd ag ymwybyddiaeth o gyd-destun a phersbectif cyd-destunol. Dylid cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu canfyddiadau wrth iddynt feithrin ymwybyddiaeth well o'r arena gyd-destunol ar gyfer celf a dylunio. Gellir defnyddio'r uned hon hefyd i archwilio effaith technolegau newydd wrth hwyluso trosglwyddiad ac esblygiad syniadau a gwerthoedd ar draws diwylliannau a thros amser.

Dylid annog myfywrwyr i fod yn fentrus a chadw meddwl agored wrth archwilio, dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth. Dylid annog myfywrwyr hefyd i ddeall y berthynas hysbysol rhwng astudio persbectif cyd-destunol a'u gweithgareddau creadigol eu hunain. Bydd gweithgareddau ymarferol yn yr uned hon yn gofyn i'r myfyriwr bennu a deall ymchwil i gyd-destun a gwerthuso ffynonellau, gan gofnodi eu canfyddiadau mewn amrywiaeth o fformatau.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio amrywiaeth o ddiulliau ar gyfer cofnodi ymchwil i gyd-destun.
- Defnyddio 'micro-brosiect' sy'n ymgorffori'r dysgu ar gyfer Unedau 1 a 2 er mwyn rhoi nod penodol ar gyfer gweithgaredd gyda ffocws cryfach.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfywrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfywrwyr yn erbyn canlyniadau a meini prawf asesu'r uned. I'r myfywrwyr hynny sy'n ceisio am y Dyfarniad yn unig, caiff yr unedau hyn eu safoni'n allanol hefyd. Dylid cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon gyda'r rhai ar gyfer Uned 1.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: cofnod o ymchwil i gyd-destun wedi'i gyflwyno mewn dyddiaduron myfyriol, llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, fformatau testun estynedig, neu recordiadau digidol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfywrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 3

## Cyflwyniad i sgiliau lluniadu

Lefel: 2

ODA: 50

CAU: 70

Credydau: 7

**Nod yr uned:** Rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i'r sgiliau lluniadu sydd eu hangen i gefnogi gweithgareddau creadigol mewn celf a dylunio.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gyfarwydd â systemau mesur ar gyfer trosi gwrthrychau 3D yn lluniadau 2D.

2. Gallu defnyddio mesuriadau mewn lluniadau arsylwadol.

3. Gwybod sut mae amrywiaeth o ffynonellau golau yn effeithio ar edrychiad ac ystyr gwrthrychau.

4. Gallu defnyddio amrywiaeth o gyfryngau lluniadu i gofnodi effeithiau golau.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

1.1 Pennu systemau mesur priodol i drosi gwrthrychau a arsylwir o 3D yn lluniadau 2D.

2.1 Defnyddio systemau mesur wrth gynhyrchu lluniadau arsylwadol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

2.2 Asesu'r defnydd o systemau mesur i ddylanwadu ar edrychiad ac ystyr mewn lluniadau arsylwadol.

3.1 Cymharu a chyferbynnu amrywiaeth o ffynonellau golau ar amrywiaeth o wrthrychau.

4.1 Defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i gofnodi effeithiau golau ac i ddylanwadu ar edrychiad ac ystyr wrth lluniadu.

4.2 Asesu'r defnydd o olau i effeithio ar edrychiad ac ystyr wrth lluniadu.

## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r lluniadau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i roi dealltwriaeth i fyfyrwyr o elfennau ffurfiol lluniadu, deunyddiau a phrosesau iaith weledol, a'r ymagweddau a'r persbectifau sy'n pennu sut cânt eu defnyddio.

Dylid annog myfyrwyr i ddatblygu lefel briodol o sgil wrth gymhwyso iaith weledol i'w galluogi i fynegi eu syniadau a'u profiadau yn llwyddiannus.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o aseiniad(au) stiwdio neu weithdy, wedi'i ddylunio i hybu hyder myfyrwyr ac i'w hannog i ddod yn fwy cyfarwydd ag amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau, prosesau a sgiliau. Dylid annog myfyrwyr i fod yn fentrus a chadw meddwl agored wrth archwilio a gwerthuso iaith weledol.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Archwiliad o systemau mesur ffurfiol ar gyfer lluniadu a ddefnyddir i gofnodi ymatebion i amrywiaeth o ddeunyddiau pwnc.
- Archwiliad o'r defnydd o olau i gofnodi ymatebion i amrywiaeth o ddeunyddiau pwnc.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd allanol UAL Awarding Body. Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon gyda'r rhai ar gyfer Unedau 4, 5, 6 a 7.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: arbrofion ac archwiliadau o luniadu ac iaith weledol mewn amrywiaeth eang o ddeunyddiau, fformatau, ac ar amrywiaeth eang o arwynebeddau a meintiau.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 4

## Cyflwyniad i sgiliau cyfathrebu mewn celf a dylunio

Lefel: 2

ODA: 50

CAU: 70

Credydau: 7

**Nod yr uned:** Rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i'r sgiliau cyfathrebu a ddefnyddir i gefnogi gweithgareddau celf a dylunio. Bydd yr uned hefyd yn datblygu dealltwriaeth o'r rôl y mae sgiliau cyfathrebu yn ei chwarae wrth lywio a datblygu syniadau.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Deall dulliau a sgiliau cyfathrebu.
2. Gallu defnyddio dulliau a sgiliau cyfathrebu.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Dewis a chymharu amrywiaeth o ddulliau a sgiliau cyfathrebu i gefnogi gweithgareddau creadigol.
- 2.1 Defnyddio dulliau a sgiliau cyfathrebu i gaffael a phrosesu gwybodaeth ac i fynegi syniadau wrth gefnogi gweithgareddau creadigol.
- 2.2 Asesu pa mor effeithiol yw dulliau a sgiliau cyfathrebu wrth fynegi syniadau i gefnogi gweithgareddau creadigol.

## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Mae'r uned hon, y gellid ei chysylltu a/neu ei chyflwyno ochr yn ochr ag Unedau 3, 5, 6 a 7, wedi'i dylunio i roi dealltwriaeth o bwysigrwydd sgiliau cyfathrebu wrth fynegi syniadau i gefnogi gweithgareddau creadigol.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect(au) stiwdio, llyfrgell, oriel neu amgueddfa, sydd wedi'i ddylunio i hybu hyder myfyrwyr ac i'w hannog i ddod yn fwy cyfarwydd ag amrywiaeth o ffurfiau a thechnegau cyfathrebu, gan gynnwys rhai llafar ac ysgrifenedig, mewn fformatau byr neu estynedig.

Dylid annog myfyrwyr hefyd i fod yn fentrus a chadw meddwl agored wrth archwilio, cofnodi a chyfathrebu syniadau drwy gyfrwng amrywiaeth o fformatau a chyd-destunau. Dylent hefyd ddeall y rôl hanfodol y mae sgiliau cyfathrebu da yn ei chwarae wrth gefnogi pob gweithgaredd celf a dylunio, a hynny o fewn addysg ac yn y diwydiannau creadigol.

Dylid cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu canfyddiadau mewn perthynas â'u holl weithgareddau creadigol.

Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys:

- Archwilio amrywiaeth o ffurfiau cyfathrebu
- Archwilio a mynegi syniadau drwy gyfrwng amrywiaeth o fformatau i gefnogi gweithgareddau creadigol.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd allanol UAL Awarding Body. Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon gyda'r rhai ar gyfer Unedau 3, 5, 6 a 7.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwybodaeth wedi'i threfnu a'i chyfathrebu i gefnogi gweithgareddau celf a dylunio ac wedi'i chyflwyno mewn llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, adroddiadau, traethodau, ysgrifennu estynedig, cyflwyniadau llafar neu recordiadau digidol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned.

## Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau materol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys stiwdios a gweithdai celf a dylunio gyda'r cyfarpar priodol diweddaraf, cyfleusterau TG a ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil. Rhaid i ganolfannau allu sicrhau bod mynediad priodol i stiwdios pwrpasol cyffredinol a darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hyblyg neu fynediad agored mewn meysydd mwy arbenigol.

# Uned 5

## Datrys problemau 2D creadigol

Lefel: 2

ODA: 50

CAU: 80

Credydau: 8

**Nod yr uned:** Rhoi cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes i weithio tuag at ddatrysiad ar gyfer problem dau-ddimensiwn wedi'i diffinio ym maes celf a dylunio.

### Canlyniadau dysgu

Bydd y myfyriwr yn:

1. Gallu defnyddio sgiliau lluniadu a sgiliau ymchwil mewn celf a dylunio 2D.
2. Gallu defnyddio ymwybyddiaeth o gyd-destun mewn celf a dylunio 2D.
3. Gallu defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau technegol mewn celf a dylunio 2D.

### Meini prawf asesu

Mae'r myfyriwr yn gallu:

- 1.1 Defnyddio sgiliau lluniadu a sgiliau ymchwil i ddatblygu syniadau i ddatrys problem celf a dylunio 2D.
- 1.2 Asesu pa mor effeithiol yw sgiliau lluniadu a sgiliau ymchwil wrth ddatblygu syniadau i ddatrys problem celf a dylunio 2D.
- 2.1 Defnyddio ymwybyddiaeth o gyd-destun i gefnogi'r gwaith o ddatblygu datrysiad i broblem celf a dylunio 2D.
- 3.1 Defnyddio deunyddiau, prosesau a sgiliau technegol i ddatrys problem celf a dylunio 2D.
- 3.2 Asesu pa mor effeithiol yw deunyddiau, prosesau a sgiliau technegol wrth ddatrys problem celf a dylunio 2D.



## Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu

Dylai canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster ddylunio aseiniadau a fydd yn darparu'r dysgu sydd ei angen ar fyfyrwyr i gyflawni'r meini prawf asesu. Caiff y ganolfan benderfynu ar hyd a chymhlethdod yr aseiniadau a'r gweithgareddau penodol y gofynnir i fyfyrwyr eu cyflawni.

Dylid cyflwyno'r dysgu ar gyfer yr uned hon fel rhan o brosiect(au) stiwdio, llyfrgell, oriel neu amgueddfa, sydd wedi'i ddylunio i hybu hyder myfyrwyr ac i'w hannog i ddod yn fwy cyfarwydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ymgymryd yn llwyddiannus â thasg fwy cymhleth i ddatrys problem 2D. Dylid cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu canfyddiadau mewn perthynas â'u gweithgaredd datrys problem.

Gellid cyflwyno'r dysgu ar gyfer Unedau 5, 6 neu 7 drwy gyfrwng aseiniadau sy'n annog neu'n gofyn gweithio mewn tîm. Lle bo canolfannau'n penderfynu ymgorffori gwaith tîm mewn aseiniad, mae'n bwysig bod y dystiolaeth asesu'n adlewyrchu'r cyfraniad a wnaeth pob myfyriwr.

Yn yr uned hon, dylai myfyrwyr: nodi gofynion yr aseiniad (datrys problem 2D); cynnal gwaith ymchwil; datblygu a gwerthuso syniadau yn erbyn y gofynion a nodwyd a'r cyd-destun celf a dylunio ehangach; a defnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i baratoi a chyflwyno datrysiadau.

Dylai canolfannau ddefnyddio dull o gyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol mewn lle.

## Dulliau asesu a thystiolaeth o gyflawniad

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol drwy gyfrwng portffolios tystiolaeth myfyrwyr ac mae'n ddarostyngedig i broses sicrhau ansawdd allanol UAL Awarding Body. Gellir cyfuno'r gweithgareddau asesu ar gyfer yr uned hon gyda'r rhai ar gyfer Unedau 3, 4, 6 a 7.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi. Gallai, er enghraifft, gynnwys: gwaith ymchwil, datblygu syniadau, gwerthusiadau a gwaith cynhyrchu wedi'u cyflwyno mewn dyddiaduron myfyriol, llyfrau gwaith, llyfrau nodiadau, lluniadau, dyluniadau a recordiadau digidol.

